Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Hermon
# Yr Hen Ysgol Hermon
# Glog
# Sir Benfro
# SA36 0DT

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/12/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Hermon sy'n cwrdd mewn ystafell yng Nghanolfan Hermon ger Crymych, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae'r lleoliad yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy i bedair oed rhwng 9.00 a 12.00 y bore o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod y flwyddyn addysgol. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 17 o blant fesul sesiwn. Mae 19 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gydag 13 yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod lleol. Saesneg yw prif iaith y cartref y rhan fwyaf o blant. Nid yw'r lleoliad yn adnabod yr un o'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff gan gynnwys yr arweinydd. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Medi 2018.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Hydref 2018 a chan Estyn ym mis Hydref 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i’r ddarpariaeth gyson yn y Gymraeg ac yn datblygu dealltwriaeth gryf o’r iaith yn fuan
- y plant yn hapus iawn, yn ymgartrefu’n gyflym ac yn mynd yn syth a diofyn at y gweithgareddau parhaus yn frwdfrydig
- medrau rhif y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda
- y rhan fwyaf o blant yn gwrando ar stori ac yn ymuno yn y symudiadau yn ystyrlon
- llawer yn dangos diddordeb mewn llyfrau a’u cynnwys gan dreulio amser bob dydd yn ‘darllen’
- llawer o blant yn barod iawn i gymryd cyfrifoldeb
- llawer o’r plant yn ymddwyn yn dda, rhannu teimladau, ac yn parchu ei gilydd
- ymarferwyr yn modelu’r iaith Gymraeg yn gadarn a chyson iawn
- ymarferwyr yn hyrwyddo lles plant yn arbennig o lwyddiannus trwy ddefnydd celfydd o bypedau i annog y plant i drafod teimladau yn ystod ‘amser cylch’
- defnydd effeithiol iawn o arddangosfeydd lliwgar a deniadol er mwyn atgyfnerthu’r dysgu a dathlu gwaith y plant
- ymarferwyr yn adnabod pob plentyn yn dda ac yn defnyddio’r wybodaeth asesu yn llwyddiannus i gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr weledigaeth glir, lwyddiannus, yn seiliedig ar ddatblygu lles y plant, a chryfhau’r ddarpariaeth er mwyn codi safonau
- ffocws arbennig ar ddatblygu dealltwriaeth o’r iaith Gymraeg a throchi’r plant yn y Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ieithyddol y plant
- arweinwyr yn ymateb yn fuan i’r cyngor gan asiantaethau allanol
- ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau’n llawn ac yn sicrhau bod y plant yn gwneud y cynnydd gorau
- gweithdrefnau hunanarfarnu yn galluogi staff i adnabod cryfderau’r lleoliad ac yn trosglwyddo materion i’w gwella i’r cynllun datblygu yn llwyddiannus
- gan y lleoliad ystod o bartneriaethau hynod effeithiol
- ymarferwyr yn ymateb yn fuan iawn i unrhyw gyngor a hyfforddiant

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer datblygu medrau plant yn yr ardal allanol

A2 Cynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant

A3 Cryfhau'r gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant i sicrhau mwy o ffocws ar ddeilliannau plant a bod targedau'r cynllun gwella yn fesuradwy

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r plant yn cyrraedd y lleoliad gyda medrau llythrennedd sy'n is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed gan nad ydynt yn medru'r Gymraeg. Erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith a rhifedd ar draws yr holl feysydd dysgu. Yn ystod sesiynau, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda yn y Gymraeg ac yn datblygu dealltwriaeth o'r iaith yn fuan. O ganlyniad, mae bron pob un yn gwrando'n dda iawn ar oedolion ac ar ei gilydd, yn arbennig yn ystod 'amser cylch'. Maent yn ymateb i gyfarwyddiadau yn gywir gan ddangos lefel gynyddol o ddealltwriaeth. Mae lleiafrif yn cynnal sgwrs aeddfed iawn â'i gilydd ac oedolion gan ddefnyddio iaith gyfoethog yr ardal. Enghraifft nodedig o hyn oedd plant yn cynnal sgwrs ffôn dychmygol gan ddwyn y sgwrs fyrlymus i ben drwy nodi bod angen gosod y babi i gysgu. Mae llawer yn gwrando'n briodol ar storïau ac yn cymryd rhan bwrpasol yn y caneuon dosbarth gan wneud y symudiadau priodol.

Mae llawer yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u cynnwys. Maent yn dangos dealltwriaeth gynyddol o sut i ddal llyfr a throi tudalennau, gydag ychydig o ddarllenwyr mwy abl yn dechrau ymateb i'r cynnwys dryw adnabod cliwiau yn y lluniau. Mae llawer yn ymateb yn frwdfrydig i storïau gan ateb cwestiynau'n hyderus am ddigwyddiadau gwahanol yn stori 'Maldwyn y Wiwer'. Gall ychydig gyfeirio at ddysgu blaenorol yn llwyddiannus wrth ddisgrifio cynnwys stori. Mae llawer yn dod o hyd i'w henwau heb gymorth pan fyddant yn cyrraedd ac wrth hunangofrestru. Mae llawer yn creu marciau yn effeithiol a chyda rheolaeth gynyddol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc a phensiliau lliw ac apiau ar lechen gyfrifiadurol.

Mae medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n dda ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn adrodd rhifau i 10 yn llwyddiannus ac yn cyfateb rhif a gwrthrychau hyd at 10. Maent yn adnabod ac enwi siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd yn dda, er enghraifft wrth osod darnau jig-so yn gywir yn eu lle. Mae llawer yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth drafod gwaith rhif, er enghraifft wrth drafod tal a llai wrth adeiladu tŵr yn defnyddio pegiau ac yna mesur y tyrrau yn erbyn y jiráff.

Mae gan fwyafrif o'r plant fedrau TGCh priodol. Maent yn trin llechen gyfrifiadurol yn weddol hyderus ac yn defnyddio ystod o deganau electronig yn dda.

Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer bach gyda rheolaeth gadarn mewn amrywiaeth o dasgau gwahanol, fel brwshys paent, sialc a botymau. Maent yn datblygu medrau creadigol effeithiol wrth greu lluniau yn ymwneud â'r thema. Enghreifftiau arbennig o hyn yw'r gwaith manwl wrth baentio lluniau o goed yr hydref a Colin y crwban.

Mae medrau llawer o'r plant o ran datrys problemau a datblygu medrau meddwl yn datblygu'n briodol, er enghraifft wrth osod cloriau ar y blychau cywir ar ôl iddynt gael

eu cymysgu a datrys sut i symud cynnwys y bwmpen yn ddiogel i'r gegin fwd. Mae mwyafrif o blant yn datblygu medrau corfforol da drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol a mentrus.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn hapus yno. Maent yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dewis gweithgareddau yn annibynnol yn syth. Mae llawer o'r plant yn dechrau gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud yn ystod chwarae rhydd, er enghraifft wrth chwarae rôl yn y gegin. Mae'r rhan fwyaf wrth eu bodd yn cymryd rhan yn yr ystod o weithgareddau. Gall llawer ganolbwyntio ar dasg a dyfalbarhau am gyfnodau estynedig wrth bwytho edau o amgylch siâp a pheintio Colin y Crwban gan sicrhau bod ganddo ben, llygaid a thraed. Gall llawer adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddisgrifio beth sy'n digwydd nesaf yn stori'r 'Gwiwerod Gwirion Bost!'

Mae bron bob plentyn yn awyddus i ddysgu ac yn dechrau datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn datblygu hyn yn llwyddiannus drwy helpu gweini yn ystod amser byrbryd ac wrth wisgo a dadwisgo cotiau. Un o gryfderau'r lleoliad yw'r modd mae bron pob plentyn yn derbyn cyfrifoldeb i dacluso ar ôl cyfnod o weithgareddau o'u dewis eu hunain. Maent yn mwynhau gwneud hyn i'r gerddoriaeth gefndir bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda iawn, yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais. Maent yn dysgu cymryd eu tro, rhannu ac arfer hunanreolaeth yn dda ac mae llawer yn defnyddio offer yn ofalus.

Yn ystod amser byrbryd, mae'r rhan fwyaf yn arddangos medrau cymdeithasol da. Maent yn dysgu dweud 'diolch' ac maent i gyd yn ymwybodol bod angen hylendid da trwy olchi eu dwylo cyn amser byrbryd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio'n ofalus yn wythnosol i ddatblygu medrau'r plant yn yr holl feysydd dysgu. Ar y cyfan, mae'r profiadau dysgu hyn yn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus ac yn adeiladu ar brofiadau a dysgu blaenorol y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb bron pob plentyn yn effeithiol. Mae'r cynlluniau yn bodloni anghenion y plant ac yn nodi'n glir beth fyddant yn medru dysgu mewn gweithgareddau.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd y plant yn llwyddiannus iawn. Maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau llythrennedd y plant trwy ystod o weithgareddau ac ymarferion rheolaidd er mwyn trochi'r plant yn y Gymraeg. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod plant yn ymarfer ymateb i gwestiynau cyfarwydd yn ystod amser cofrestru ac amser cylch ac yn canu caneuon cyfarwydd yn ddyddiol. Mae hyn yn magu hyder y plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn dda. Trwy ddarparu cyfleoedd dyddiol, maent yn rhoi cyfleoedd cyson i'r plant ddysgu trin llyfrau'n ofalus gan ddechrau mwynhau ymddwyn fel darllenwyr. O ganlyniad, mae llawer o blant yn magu hoffter at lyfrau ac yn dewis mynd i'r gornel

ddarllen neu droi at lyfr yn ddiofyn. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau creu marciau cynnar gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau y tu fewn a thu allan.

Mae cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau rhifedd. Mae’r plant yn cael cyfleoedd i gyfrif gwrthrychau yn seiliedig ar y thema yn gyson ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu medrau rhif. Enghraifft o hyn yw dewis sawl cneuen castan sy’n cyfateb i’r rhif. Mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd addas i ddatblygu medrau corfforol a datrys problemau plant. Fodd bynnag, er bod y plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio offer TGCh, nid yw’r cynlluniau ar gyfer hybu medrau TGCh y plant mor bwrpasol â chynlluniau llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn systematig ar draws meysydd dysgu.

Mae’r lleoliad yn defnyddio ymweliadau lleol ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant yn dda iawn. Wrth astudio’r thema ‘trafnidiaeth’, mae’r ymarferwyr wedi trefnu cyfle i’r plant ymweld â chwmni lorïau lleol sy’n cario nwyddau ar draws Prydain ac Ewrop, cwmni bysiau lleol a’r orsaf drên agosaf i gyfoethogi’u dysgu. Mae ymwelwyr yn addysgu’r plant am y byd o’u cwmpas yn ymarferol wrth ddod ag anifeiliaid maent yn gofalu amdanynt i’r lleoliad. Mae’r ystod o ymwelwyr ddaeth i’r lleoliad wrth i’r plant edrych ar ‘bobl sy’n ein helpu’ yn eu galluogi i ddeall rolau pobl yn eu milltir sgwâr yn llwyddiannus.

Hybir Cymreictod y plant yn ddyddiol trwy sefydlu ethos hollol Gymreig o fewn y lleoliad. Mae’r plant hefyd yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig gan gynnwys mynychu Gŵyl y Mudiad Meithrin.

Mae’r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddewis eu tasgau a’u gweithgareddau eu hunain yn yr ardaloedd tu fewn. Mae tasgau ffocws yn sicrhau bod y rhan fwyaf o blant yn cael eu herio’n briodol yn ôl eu hoed a’u gallu. Fodd bynnag, nid yw’r gweithdrefnau cynllunio yn nodi cyfleoedd yn ddigon cyson i’r plant ddysgu trwy gyfleoedd pwrpasol yn y tu allan. O ganlyniad, nid oes digon o bwrpas i’r gweithgareddau bob tro.

**Addysgu: Da**

Mewn byr dro, mae’r ymarferwyr wedi dechrau cydweithio’n effeithiol fel tîm a chefnogi ei gilydd er lles y plant. Mae perthynas hyfryd yn bodoli rhwng y staff a’r plant ac mae’r ymarferwyr yn canmol ymdrechion y plant yn gyson a phwrpasol.

Un o gryfderau amlwg y lleoliad yw’r modd y mae ymarferwyr yn modelu’r iaith Gymraeg yn ddiflino. Drwy hyn, maent yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i drochi’r plant yn y Gymraeg drwy gyfathrebu â nhw’n gyson. Mae hyn yn gymorth i ddatblygu iaith y plant trwy gyflwyno geirfa newydd ac ailadrodd geiriau cyfarwydd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y plant, yn arbennig gan mai ychydig sy’n clywed y Gymraeg ar yr aelwyd.

Ar y cyfan, mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn sicrhau cydbwysedd llwyddiannus rhwng gweithgareddau sy’n cael eu cyfeirio gan oedolion a rhai sy’n cael eu dewis gan blant y tu fewn a thu allan. Mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddysgu trwy chwarae, er

enghraifft wrth iddynt rolio toes a'i ffurfio i greu siâp draenog a chwarae rôl yn y gegin. Mae'r gweithgareddau yn cynnal diddordeb llawer o'r plant yn dda ac yn eu galluogi i ddyfalbarhau â'u tasgau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer asesu cynnydd y plant yn effeithiol ac mae ymarferwyr yn adnabod anghenion pob plentyn yn dda. Mae'r ymarferwyr yn canmol plant ar lafar yn gyson ac yn eu holi'n fedrus yn ystod y sesiwn. Mae'r broses o arsylwi ac asesu'r plant yn ddyddiol yn sicrhau bod plant yn cael y gefnogaeth angenrheidiol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd bwriadus o'r cynllunio wythnosol i gofnodi camau nesa'r plant.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad trwy sgyrsiau rheolaidd a chyfle i ddod i'r lleoliad i drafod cynnydd eu plant. Mae pob rhiant yn derbyn pecyn o waith eu plant sy'n cofnodi a dathlu eu datblygiadau ar draws pob maes dysgu yn ystod y flwyddyn. Trosglwyddir gwybodaeth fuddiol i'r ysgolion sy'n derbyn y plant er mwyn dangos yn eglur holl ddatblygiad pob plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r modd llwyddiannus iawn y mae staff yn hyrwyddo lles plant yn hynod effeithiol ac yn gryfder amlwg yn y lleoliad. Mae'r awyrgylch groesawgar a'r berthynas deuluol sy'n cael ei chreu yn golygu bod bron pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn ymddiried yn y staff ac yn mwynhau dod i'r lleoliad. Mae cyfleoedd cyfoethog iawn i hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol y plant. Enghraifft nodedig iawn o hyn yw annog y plant i drafod teimladau yn ystod 'amser cylch' trwy ddefnydd celfydd o bypedau. Mae'r pypedau hyn wedi ennill eu plwyf yn y lleoliad ac mae'r plant yn uniaethu â hwy yn llwyr ac, o ganlyniad, maent yn barod iawn i rannu eu teimladau. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn datblygu gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch, yn eithriadol o lwyddiannus ac mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda iawn, yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais. Mae staff yn canmol plant yn gyson am rannu, dangos parch at eraill neu ymddwyn yn dda.

Mae cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol y plant, er enghraifft trwy annog y plant i gyd-addoli cyn bwyta byrbryd ac ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau, er enghraifft wrth ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a darparu adnoddau a doliau amlddiwylliannol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta'n iach yn effeithiol. Mae'r amser diod a ffrwythau yn atgyfnerthu hyn yn dda iawn gan roi cyfleoedd pwrpasol i blant ddatblygu eu medrau cymdeithasol. Mae hefyd yn rhoi cyfle arbennig i'r plant feithrin amynedd, dysgu cymryd eu tro a rhannu. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant yn llwyddiannus i gymryd cyfrifoldeb wrth weithredu fel helpwr y dydd ac yn arbennig wrth annog pawb i dacluso. Rhan o gyfrifoldeb y plant yw ailgylchu deunyddiau ac mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn dda. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu ymarfer corfforol yn datblygu'n gadarn.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo yn ddiogel i ofal eu rhieni neu ofalwr.

Mae prosesau effeithiol gan y lleoliad i ymateb i anghenion unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r arweinydd yn gweithio’n agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu’n effeithiol yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch ofalgar a diwyd iawn o fewn y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n dda i sicrhau ethos cynhwysol lle mae pob plentyn yn cael ei barchu, yn cael yr un chwarae teg a’i drin yn gyfartal.

Mae’r ymarferwyr yn darparu amgylchfyd deniadol ac ysgogol ac mae gan y lleoliad gyflenwad addas o adnoddau pwrpasol. Gwneir defnydd effeithiol o’r rhain i gefnogi egwyddorion y cyfnod sylfaen yn yr adeilad. Mae’r ardaloedd darpariaeth barhaus y tu mewn yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Ond nid yw’r ymarferwyr yn cynllunio’n ddigon fwriadus ar gyfer gwneud defnydd o’r holl adnoddau sydd ar gael tu allan. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn sicrhau gweithgareddau cymwys i ddatblygu medrau datrys problemau a medrau meddwl.

Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o arddangosfeydd lliwgar a deniadol er mwyn atgyfnerthu’r dysgu a dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn un o gryfderau’r lleoliad. Mae’r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gadw’n lân.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir i ddatblygu lles y plant, a chryfhau’r ddarpariaeth. Mae’r ddarpariaeth yn sicrhau ffocws dyddiol ar godi safonau ieithyddol y plant yn arbennig gan fod llawer yn cychwyn yn y lleoliad yn ddi-Gymraeg. Mewn byr dro, mae’r arweinwyr newydd yn cydweithio’n fuddiol gydag ymarferwyr eraill ac yn dechrau rhannu cyfrifoldebau arwain yn bwrpasol. Mae’r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau’n llawn ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Trwy gyd-gynllunio pwrpasol, mae’r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol sy’n bodloni egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. O ganlyniad i’r cydweithio effeithiol, mae rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd yn llyfn ac mae’r plant yn ymateb yn dda i hyn.

Mae’r arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella’r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant ac olrhain eu cynnydd yn syml. Mae’r arweinwyr yn defnyddio cyngor gan asiantaethau allanol yn dda gan ymateb yn fuan er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a ffocysu ar safonau. Enghraifft o hyn yw’r ffocws cryf ar ddefnyddio pypedau a darllen i wella medrau’r plant. Mae’r lleoliad yn rhoi sylw pwrpasol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn ffocysu’n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn ogystal â datblygu’r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer TGCh wedi datblygu i’r un graddau.

Mae'r pwyllgor rheoli a'r person cofrestredig yn derbyn gwybodaeth berthnasol gyson gan yr arweinydd. Mae'r pwyllgor yn cyfrannu'n fuddiol tuag at reolaeth y lleoliad gan drafod anghenion y lleoliad mewn cyfarfodydd yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan weithredol yn y prosesau rheoli perfformiad. Mae'r arweinwyr a'r pwyllgor yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod polisïau statudol yn cael eu gweithredu. Mae'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd cyson ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn wythnosol.

**Gwella ansawdd: Da**

Yn dilyn cefnogaeth yr awdurdod, mae'r arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau gwella ansawdd buddiol. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o adroddiadau a'r ymweliadau gan yr awdurdod er mwyn cyfrannu at y gweithdrefnau gwella ansawdd. O ganlyniad, maent yn awr yn holi barn rhieni trwy ddefnyddio holiaduron i gael syniadau pellach ar sut i wella. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r wybodaeth asesu ac yn trafod safonau'r plant a'r ddarpariaeth yn gyson fel rhan o'r gweithdrefnau gwella ansawdd.

Mae'r gweithdrefnau gwella ansawdd yn adnabod llawer o gryfderau'r lleoliad yn arbennig o ran darpariaeth ac yn adnabod yr hyn sydd angen ei wella yn glir. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar arfarnu safonau'r plant. Mae'r cynlluniau ar gyfer gwelliant yn codi'n naturiol o'r gweithdrefnau ac cynnwys camau gweithredu clir, terfynau amser ynghyd â chyfrifoldebau a cholofn ddefnyddiol i nodi cynnydd. Mae'r gweithdrefnau wedi arwain at welliant yn y ffocws cyson ar sicrhau cyfleoedd cyfoethog i'r plant ddarllen. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar bob achlysur yn ddigon mesuradwy er mwyn monitro camau gweithredu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu'n fuddiol at godi safonau a lles y plant. Mae perthynas dda rhwng yr ymarferwyr a rhieni'r plant. Mae polisi drws agored y lleoliad yn golygu bod rhieni yn cael cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod â staff a thrafod unrhyw bryderon yn gynnar iawn. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson am ddigwyddiadau trwy wefan gymdeithasol. Mae rhieni'n cael cyfle yn eu tro i groesawu 'Colin y Crwban' ar ymweliad gyda'u plant. Mae hyn yn caniatáu iddynt gymryd rôl weithredol yn addysg eu plant drwy ddilyn y gweithgareddau llythrennedd, rhifedd a lles sydd yn y sach y mae Colin yn cysgu ynddo.

Mae'r bartneriaeth ardderchog gydag athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog y Mudiad Meithrin yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth y lleoliad. Mae'r lleoliad wedi cyfuno'r hyn maent wedi dysgu am sut i ddatblygu lles plant trwy hyfforddiant gan y ddau gefnogwr hyn yn llwyddiannus iawn er mwyn cael plant i rannu teimladau trwy ymateb i bypedau. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n briodol gydag asiantaethau arbenigol pan fydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol iawn o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant ac mae'r gymuned yn cefnogi gweithgareddau'r lleoliad yn dda. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd yn wythnosol i'r caffi sy'n rhan o'r ganolfan i archebu tost gan ddatblygu eu medrau llafar, rhifedd a chymdeithasol mewn cyd-destun go iawn.

Mae’r cydweithio llwyddiannus gyda’r clwb ffermwyr ifanc yn darparu cyfleoedd cymdeithasol yn y Gymraeg drwy’r cyngherddau a sicrhau arian i gefnogi’r lleoliad.

Mae cyswllt priodol rhwng y lleoliad a’r Cylch Ti a Fi sy’n cwrdd yn yr un adeilad, a rhwng y lleoliad a’r ysgolion mae’n eu bwydo. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i drosglwyddo gwybodaeth ddefnyddiol ar fedrau, deilliannau’r plant a lles. Mae’r trefniadau hyn yn hyrwyddo trosglwyddo plant yn dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn cefnogi’r dysgu’n fwriadus. Mae systemau rheoli perfformiad yn bwrpasol ac yn sicrhau bod datblygiad yr ymarferwyr yn gadarn. Maent yn mynychu hyfforddiant pwrpasol er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth o sut i ddatblygu medrau iaith a lles y plant yn ogystal â dysgu am ddulliau newydd o ddysgu ac addysgu. Maent yn ymateb yn fuan iawn i hyfforddiant ac unrhyw gyngor.

Ar y cyfan, mae’r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithlon ac yn sicrhau cyflenwad da o gyfarpar dysgu sy’n ymateb i ofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol.

Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o sefyllfa ariannol y lleoliad. Maent yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn cydweithio â rhieni i geisio sicrhau cyllid digonol i’r lleoliad. Mae’r trysorydd yn paratoi mantolen ariannol ac yn sicrhau bod y fantolen yn cael ei gwirio’n allanol. Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol iawn o’r arian i sicrhau blaenoriaethau’r lleoliad ar y Gymraeg a lles.

Yn sgil y ddarpariaeth effeithiol, y staff diwyd, y pwyllgor rheoli cefnogol a’r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |